# Bwletin y Farchnad HCC

Rhagfyr 2020

**Cafodd y pandemig coronafeirws effaith ar bob agwedd ar y gadwyn cyflenwi cig coch yn ystod 2020. Wynebodd cig coch newidiadau o ran galw gan y sectorau manwerth a gwasanaeth bwyd. Achosodd hyn broblem o ddiffyg cydbwysedd yn y defnydd o garcasau ac ansefydlogrwydd ym mhrisiau'r farchnad yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Bydd bwletin y farchnad y mis hwn yn bwrw golwg cyffredinol dros y tueddiadau a welwyd yn y farchnad cig coch yn ystod 2020.**


## GWARTHEG

### Prisiau'r Farchnad

Yn ystod chwarter cyntaf 2020, roedd y prisiau pwysau marw am fustych yng Nghymru a Lloegr yn tueddu i fod yn is nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. I ddechrau, daliodd prisiau gwartheg dethol eu tir yn dilyn cyhoeddi'r cyfnod clo cyntaf ar 23 Mawrth – er bod y sector gwasanaeth bwyd ar gau bron yn gyfan gwbl. Rhoddodd y newid yn y galw (o'r gwasanaeth bwyd i fanwerth) bwysau ar y farchnad gig eidion, a dechreuodd y prisiau pwysau marw ddisgyn yn ystod yr wythnosau canlynol. Ar gyfer bustych, disgynnodd y pris pwysau marw cyfartalog mor isel â 318.3c/kg yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 25 Ebrill, ac roedd y prisiau pwysau marw am heffrod a theirw ifainc hefyd yn is. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu taw anghydbwysedd yn y defnydd o garcasau a achoswyd gan gynnydd sydyn yng ngwerthiant briwgig, ynghyd â cholli rhywfaint o allforion, a achosodd y gostyngiad hwn yn y prisiau i'r ffermwr. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y pris pwysau marw cyfartalog tua 7% yn is nag oedd flwyddyn yn gynharach. Am fod y farchnad buchod difa yn dibynnu'n fwy ar y farchnad allforio a'r sector gwasanaeth bwyd, gostyngodd y prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr dros 19c i 209.4c/kg yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod clo.

Addasodd y farchnad gig eidion i amodau newydd y farchnad, a dechreuodd prisiau gryfhau, gyda pris pwysau marw cyfartalog am fustych yn cyrraedd brig o 368.9c/kg yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben 22 Awst. Bu'r ymgyrch fawr ar gyfer cig eidion yn y DU, a lansiwyd ar y cyd gan y byrddau ardoll, o help i gynyddu'r galw am gig eidion. Ers yr haf, mae'r prisiau pwysau marw am wartheg dethol wedi bod tua 50c yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ar gyfartaledd, gyda bustych yn cyrraedd 372.0c/kg yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd (15% yn uwch na 2019). Yn yr wythnos yn diweddu 12 Rhagfyr, y pris pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd 364.4c/kg (-4.2c ar yr wythnos), tra bod heffrod yn 363.4c/kg (-3.5c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 347.1c/kg (-2.1c), a gwartheg difa yn 219.7c/kg (+1.3c).


**Prisiau Cyfartalog Bustych (pwysau marw) yng Nghymru a Lloegr**




### Cyflenwad

Cyrhaeddodd y trwybwn misol o wartheg dethol y brig yn lladd-dai'r DU ym mis Mawrth 2020 pan laddwyd 183,500 o wartheg, sef 10.2% yn fwy na blwyddyn yn gynharach. Ers mis Mawrth, mae'r niferoedd wedi tueddu i fod yn uwch na blwyddyn ynghynt er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19 yn rhai o'r unedau prosesu. Lladdwyd cyfanswm o 243,400 o wartheg yn ystod mis Tachwedd - 5.5% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Am y flwyddyn hyd yma (Ion-Tach), mae cyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn 1.89 miliwn - 1.6% yn fwy nag yn 2019. Nifer yr heffrod a laddwyd sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn; lladdwyd 4.1% yn fwy o heffrod, mewn cymhariaeth â 1.1% yn fwy o fustych. Lladdwyd ychydig yn llai o fuchod difa yn lladd-dai'r DU yn ystod Ebrill/Mai, yn dilyn y cyfnod clo cyntaf, ond wedi hynny tueddwyd i ladd mwy nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019. Hyd mis Tachwedd eleni, lladdwyd 0.7% yn fwy o wartheg difa na'r llynedd. Yn dilyn cynnydd yn nifer y gwartheg dethol a difa a laddwyd, cynhyrchwyd cyfanswm o 855,200 tunnell o gig eidion a chig llo yn ystod y flwyddyn, sef 1.4% yn fwy nag yn 2019.

**Gwartheg Dethol a Laddwyd yn y DU**




### Y Galw

Arweiniodd y prynu panig yn ystod y cyfnod clo cychwynnol ym mis Mawrth, ynghyd â chau'r sector gwasanaeth bwyd bron yn llwyr, at gynnydd yn y gwariant ar y toriadau rhataf o gig eidion - yn enwedig briwgig yn ystod dechrau'r flwyddyn. Roedd y gwariant ar friwgig yn ystod y 4 wythnos a ddaeth i ben 22 Mawrth yn 43% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019 (ffynhonnell: Kantar Worldpanel). Arweiniodd y cynnydd sylweddol yng ngwerthiant briwgig at broblemau anghydbwysedd o ran y defnydd o garcasau cig eidion, a dyna oedd yn gyfrifol i ddechrau am y gostyngiad yn y pris i'r ffermwr. Oherwydd ymgyrchoedd i annog defnyddwyr i brynu'r toriadau premiwm eraill, adferwyd y cydbwysedd, ac roedd y gwariant ar stêcs yn ystod y 12 wythnos hyd at 06 Medi yn 15.9% yn uwch nag yn 2019. Mae cyfanswm y gwariant ar gig eidion yn y flwyddyn hyd at 01 Tachwedd 2020 yn £2.1 biliwn, sef 15.3% yn fwy na'r llynedd, ac mae cyfanswm y cyfaint a werthwyd i fyny 14.6%. Mae'r galw mawr am gig eidion yn ystod y misoedd diwethaf yn un o'r rhesymau am y prisiau da i ffermwyr.


## DEFAID

### Prisiau'r Farchnad

Mae'r pris pwysau byw cyfartalog am ŵyn dethol yn marchnadoedd yng Nghymru wedi bod yn dda ar y cyfan yn 2020, ac yn ystod y chwarter cyntaf roedd yn tueddu i fod tua 30c yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yn wahanol i brisiau gwartheg dethol; cafwyd gostyngiad ar unwaith ym mhrisiau ŵyn yn y marchnadoedd pan gyhoeddodd y DU y cyfnod clo cyntaf - cwymp o 50c yn ystod yr wythnos yn diweddu 28 Mawrth i 199.1c/kg. Yn ystod yr wythnosau wedyn, addasodd y farchnad wrth i broseswyr a chyflenwyr newid eu llwybrau cyflenwi ar ôl i'r sector gwasanaeth bwyd gau. Yn ystod yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad hefyd ym mhrisiau pwysau byw mamogiaid difa yn y marchnadoedd (gostyngiad o £38 y pen yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 28 Mawrth). Oddi ar hynny, mae prisiau mamogiaid difa yng Nghymru wedi gwella ac wedi aros i raddau helaeth yn uwch na blwyddyn ynghynt ac yn uwch hefyd na'r cyfartaledd pum-mlynedd.

Wrth i gadwyn gyflenwi'r farchnad gig oen sefydlogi ac wrth i werthiannau cig oen aros yn gryf, fe adferodd pris ŵyn dethol ar gyfartaledd yn ystod ail chwarter 2020. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 23 Mai cafwyd y cyfartaledd uchaf o 263.3c/kg yn y marchnadoedd da byw (11% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol), ac arhosodd y pris cyfartalog yn gymharol sefydlog yn ystod y trydydd chwarter ac i mewn i'r pedwerydd chwarter. Mae'r pris cyfredol yn 27.2c yn uwch nag ydoedd flwyddynyn ôl ac yn 44.3c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 170.9c/kg). Pris cyfartalog y mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw Cymru oedd £61.10 y ddafad, sef £3.80 yn is na'r wythnos flaenorol a thua £1.30 y famog yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd.

**Prisiau ŵyn Dethol (SQQ) ym Marchnadoedd Da Byw Cymru**





### Cyflenwad

Lladdwyd llai o ŵyn dethol yn lladd-dai'r DU yn ystod chwarter 1 (-4.6%) a chwarter 2 (-5.0%), ond lladdwyd 6.0% yn fwy nag yn 2019 yn ystod chwarter 3. Cafwyd y trwybwn misol uchaf yn ystod mis Gorffennaf, pan laddwyd 1.29 miliwn o ŵyn - 18.5% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn hyd yma, mae cyfanswm yr ŵyn dethol a laddwyd (sef 11.8 miliwn) yn 1.8% yn is nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019, ac mae'n cyfrif am bron i 90% o'r holl ddefaid a laddwyd. Mae canlyniadau dros dro Arolwg Mehefin y DU yn awgrymu bod nifer yr ŵyn a anwyd yn 2020 yn debyg i'r nifer y llynedd, a bod nifer yr ŵyn a laddwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2020 yn 0.6% yn uwch - sy'n awgrymu y gallem weld llai o gyflenwad yn ystod y misoedd nesaf wrth gymhaur a'r flwyddyn cynt.

Mae nifer y defaid difa sy'n cael eu lladd wedi tueddu i fod yn is na blwyddyn ynghynt ar gyfer pob mis eleni, ar wahân i fis Gorffennaf pan gynhaliwyd yr ŵyl Fwslimaidd Eid al-Adha ar ddiwedd y mis, pan oedd y nifer yn 3.6% yn uwch. O ganlyniad, lladdwyd 15.1% yn llai o ddefaid difa yn ystod y flwyddyn hyd yma nag yn 2019, a 9.5% yn llai nag yn 2018. Ym mis Tachwedd, lladdwyd 7.7% yn llai o ddefaid nag yn 2019, sef cyfanswm o 1.27 miliwn. Yn dilyn gostyngiad yn nifer yr ŵyn dethol a defaid difa a gafodd eu hanfon i'w lladd, roedd nifer y defaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd (sef 13.07 miliwn) yn 3.3% yn is nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019. Fel canlyniad, cynhyrchwyd 4.8% yn llai o gig defaid yn 2020 nag yn y mis cyfatebol y llynedd (cyfanswm o 267,300 tunnell).

**Ŵyn Dethol a Laddwyd yn y DU**




### Y Galw

Cyhoeddodd y DU y cyfnod clo cyntaf ychydig wythnosau cyn y Pasg, ac roedd y sector gwasanaeth bwyd yn wynebu bod ar gau bron yn llwyr yn ystod y cyfnod. Er bod gwerthiant cig oen fel arfer ar ei uchaf yn ystod y Pasg, roedd y galw am gig oen yn isel eleni. Roedd cyfanswm y gwariant ar gig oen yn ystod y 4 wythnos hyd at 19 Ebrill yn 15.0% yn is na blwyddyn ynghynt, ac roedd y cyfaint i lawr 21.1% (ffynhonnell: Kantar Worldpanel). Coesau cig oen oedd y gyfran uchaf o werthiannau yn ystod y cyfnod hwn o bedair wythnos yn 2019 (61%), ond roeddent yn cyfrif am ddim ond 53% o'r gwerthiannau yn ystod y Pasg 2020 am fod defnyddwyr wedi newid i olwythion cig oen oherwydd y cyfyngiadau ar gynulliadau a dathliadau teuluol mawr. Oddi ar y Pasg, mae'r gwariant ar gig oen yn y sector manwerth ym Mhrydain wedi bod yn gyson, gyda chyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn hyd at 04 Hydref yn 7.9% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.


Er bod cig oen ar y cyfan yn gwneud yn dda, mae gwerthiant coesau cig oen yn ystod y flwyddyn hyd yma wedi gostwng 8.0% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Ers i'r DU ddechrau ar gyfnod clo ddiwedd mis Mawrth, mae cigyddion wedi bod yn gwneud yn dda - yn enwedig gyda gwerthiant cig oen. Mae cyfanswm y gwariant ar gig oen mewn siopau cig yn ystod y flwyddyn hyd yma yn 33.0% yn uwch na'r llynedd a chafodd 26.9% yn fwy ei werthu. Mae'r duedd hon yn awgrymu bod defnyddwyr wedi newid eu harferion siopa oherwydd y pandemig, gan brynu mewn siopau bach lleol.

## MOCH

### Prisiau'r Farchnad

Ers diwedd 2019, mae'r pris pwysau marw cyfartalog am foch wedi bod yn dda ac wedi parhau i fod yn wydn i raddau helaeth yn ystod y cyfnod clo cychwynnol yn y DU. Am fod y sector porc yn gymharol fach yng Nghymru, mae prisiau'r farchnad am foch yng Nghymru (a'r DU) yn tueddu i gael eu dylanwadu gan yr hyn sy'n digwydd yn fyd-eang. Cafwyd y cynnydd ym mhrisiau moch yn ystod hanner cyntaf 2020 am fod cynnydd sylweddol yn y galw am borc o wledydd Asia yn dilyn yr achosion o Glwy Affricanaidd y Moch (ASF) a laddodd dros 60% o'r genfaint foch yn Tsieina. Yn ystod mis Ionawr, cyfartaledd yr Holl Brisiau Moch (manyleb yr UE) oedd 164.0c/kg, gyda'r cyfartaledd hwn yn cynyddu bron 5c yn ystod hanner cyntaf 2020 i gyrraedd brig o 168.7c/kg yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 11 Mehefin - 13.8c yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Oddi ar hynny, fodd bynnag, mae'r cyfartaledd wedi bod yn disgyn bob wythnos. Mae sawl peth yn rhoi pwysau ar y farchnad borc yn y DU. Yn gyntaf, mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu bod Tsieina yn adfer ei chenfaint foch yn gyflym yn dilyn epidemig ASF. Felly, bydd y galw am borc (a chig arall) gan Tsieina yn lleihau wrth i'r wlad ddod yn fwy hunangynhaliol unwaith yn rhagor. Yn ogystal â gostyngiad yn y galw, nododd yr Almaen (yr allforiwr porc mwyaf yn yr UE) fod achosion o'r clwy yn ei baeddod gwyllt. Mae hyn yn amharu'n sylweddol ar gadwyn gyflenwi'r Almaen, gyda gorgyflenwad o borc ar ei marchnad gartref oherwydd colli rhai marchnadoedd allforio, fel Tsieina. O ganlyniad, mae yna bwysau ar y sector porc yn yr Almaen, ac mae hefyd bwysau ar farchnadoedd porc eraill yn fyd-eang (gan gynnwys y DG). Mae adroddiadau gan y diwydiant hefyd yn awgrymu bod Covid-19 yn dal i gyfyngu ar nifer y staff sydd ar gael mewn rhai unedau prosesu yn y DU, a bod carcasau'n drymach am fod y moch yn gorfod cael eu cadw'n hwy cyn bod modd eu lladd.

**Pris Cyfartalog yr Holl Foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**





Yn ystod ail hanner 2020, mae prisiau moch wedi gostwng dros 10c, gyda'r cyfartaledd yn gostwng yn is na blwyddyn ynghynt am y tro cyntaf yn 2020 yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 07 Tachwedd. Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 156.5c/kg yn yr wythnos yn diweddu 05 Rhagfyr - 0.1c yn is nag yn yr wythnos flaenorol.

Doedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yng ngwledydd Prydain ddim ar gael ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 05 Rhagfyr, tra roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £39.57 y mochyn, sef 0.01c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol.

### Cyflenwad

Mae nifer misol y moch heb fagu a laddwyd yn lladd-dai'r DU wedi amrywio yn ystod 2020. Roedd y niferoedd a laddwyd mor isel â 797,000 yn ystod mis Mai (12.8% yn is na blwyddyn ynghynt), a chyrraedd brig o 980,700 ym mis Hydref - a oedd yn 2.1% yn is na blwyddyn ynghynt. Ym mis Tachwedd, lladdwyd 5.5% yn llai na'r llynedd, sef cyfanswm o 908,700. Drwyddi draw, mae cyfanswm y moch heb fagu a laddwyd yn ystod y flwyddyn (hyd at fis Tachwedd) yn debyg i'r hyn ydoedd y flwyddyn flaenorol, sef 10.0 miliwn o foch (cynnydd o 0.2% o'r naill flwyddyn i'r llall). Moch heb fagu oedd 98% o'r holl foch a laddwyd hyd yma eleni. Am fod niferoedd y ddau gategori (moch heb fagu, a hychod a baeddod) heb newid fawr ddim ers y llynedd, roedd cyfanswm y moch a laddwyd rhwng Ionawr a Thachwedd 2020 yn 10.2 miliwn - 0.2% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2019. Mae carcasau yn y DU wedi bod ychydig yn drymach o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac felly mae pwysau'r porc a gynhyrchwyd hyd yma eleni (sef 898,100 tunnell) yn 2.3% yn fwy na'r llynedd.

**Moch Heb Fagu a Laddwyd yn y DU**




### Y Galw

Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol yn y DU, roedd y galw am borc yn dal i fod yn gryf er gwaethaf colli'r sector gwasanaeth bwyd. Yn y 24 wythnos a ddaeth i ben ar 09 Awst, roedd cyfanswm y gwariant ar borc yn 13% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol - i raddau helaeth oherwydd gwerthiant bacwn a selsig. Am fod defnyddwyr yn gorfod treulio mwy o amser gartref, bu cynnydd sylweddol yn nifer y brecwastau a gafodd eu coginio a'u bwyta yn y cartref a helpodd hyn i gynyddu'r galw am rai cynhyrchion porc wedi'u prosesu (ffynhonnell: Kantar Worldpanel).

